| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Arolwg Bodlonrwydd Aelodau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Papur trafod er mwyn cael barn aelodau ar y materion i'w holi mewn arolwg. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Cynhelir etholiadau lleol ym mis Mai 2027 ac mewn paratoad at hynny a chyfnod anwytho aelodau'r Cyngor newydd o 2027 ymlaen, rydym yn awyddus holi barn aelodau am eu profiadau er mwyn dysgu gwersi a chynllunio.

2. Fel cam cychwynnol, byddai'n ddefnyddiol derbyn mewnbwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau ar y trywydd cywir a'n bod yn holi am yr holl faterion perthnasol.

3. Fe wnaeth y broses panel asesiad perfformiad (PPA) gyffwrdd ar gefnogaeth aelodau a phwyllgorau yn ystod yr ymweliad ym mis Tachwedd, ac roedd yr adborth o'r broses honno yn gadarnhaol ar y cyfan. Deallwn hefyd bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal arolwg gyda chynghorwyr sy'n ymddeol a ddim yn bwriadu sefyll yn etholiadau 2027.

4. Mae'r prosesau hyn yn gymorth i ddeall mwy am anghenion aelodau, ond nid ydynt yn mynd i'r manylder fydd ei angen arnom. Credwn felly mai cynnal ymarferiad penodol wedi ei deilwra i aelodau Cyngor Mon ydi'r datrysiad cywir er mwyn ein galluogi i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol ar gyfer 2027.

**Cynllun ac amserlen**

5. Ein bwriad ydi datblygu holiadur dros yr haf i'w rannu gyda holl aelodau'r Cyngor yn ystod diwedd Awst a Medi. Bwriadwn roi cyfnod o 6 wythnos i aelodau ymateb i'r holiadur er mwyn rhoi digon o amser iddynt ystyried y pynciau dan sylw.

6. Rydym hefyd yn bwriadu trefnu sgyrsiau 1:1 gyda sampl o aelodau er mwyn gallu trafod rhai pynciau mewn mwy o fanylder. Bydd y sgyrsiau 1:1 yn digwydd ar ôl derbyn yr holiaduron er mwyn ein galluogi i ddilyn i fyny ar rhai themâu cyffredin sy'n codi o'r ymatebion.

7. Cynllun amlinellol:

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Rhannu holiadur arolwg gyda holl aelodau canol Awst am 6 wythnos. |
| Cam 2 | Arolwg yn cau diwedd Medi. |
| Cam 3 | Swyddogion i ystyried y sylwadau a threfnu cyfarfodydd 1:1 gyda sampl o aelodau yn ystod mis Hydref. |
| Cam 4 | Cyflwyno diweddariad a chanfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Democrataidd ar 19 Tachwedd. |
| Cam 5 | Llunio cynllun gweithredu ar sail canfyddiadau'r arolwg a'i drafod yn y Pwyllgor Democrataidd ym mis Mawrth 2027. |
| Cam 6 | Gweithredu'r cynllun erbyn Mai 2027. |

8. Dyma'r themâu rydym yn bwriadu holi aelodau amdanynt:
    a. Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth democrataidd
    b. Cefnogaeth i aelodau
    c. Dulliau cysylltu a rhannu gwybodaeth
    d. Gwasanaethau pwyllgor
    e. Llesiant a diogelwch
    f. Hyfforddiant a sgiliau
    g. Technoleg gwybodaeth
    h. Trefniadau anwytho

**Trafodaeth**

9. Ydych chi'n cytuno gyda'r bwriad i holi barn aelodau er mwyn cynllunio ar gyfer y cyngor newydd a threfniadau anwytho?

10. Ydych chi'n cytuno bod anfon holiadur at yr holl aelodau a chynnal sgyrsiau 1:1 manylach gyda detholiad o aelodau yn ffordd addas o gasglu gwybodaeth?

11. Pa aelodau ddylai fod yn rhan o'r sampl ar gyfer cyfarfodydd 1:1? A fyddai'n addas cynnwys aelodau'r Pwyllgor Democrataidd er enghraifft?

12. Ydi'r cynllun / amserlen yn paragraff 7 yn briodol?

13. Ydych chi'n cytuno gyda'r themâu yn paragraff 8? Oes rhywbeth ar goll?

14. Oes rhywbeth arall dylid ei ystyried fel rhan o'r arolwg?

**Argymhelliad**

15. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei farn ar y cynigion yn yr adroddiad.